# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Greenhill Manor**

**Merthyr Tudful**
**CF48 4BE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Greenhill Manor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Hallmark Care Homes (Merthyr) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 120 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 a 2 Mawrth 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn ac roedd yn ystyried y meysydd canlynol mewn perthynas â gofal a chymorth ac arweinyddiaeth a rheolaeth: meddyginiaeth, briwiau pwyso, symud a chodi a chario, atgyfeiriadau diogelu, gofal dementia, archwiliadau, a phrosesau disgyblu staff. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Mae'r staff a'r preswylwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau o weithio a byw yn Greenhill Manor. Cafodd y prosesau ar gyfer meddyginiaethau eu hadolygu a'u haddasu i leihau gwallau, ar y cyd â'r meddyg teulu a'r fferyllfa sy'n cyflenwi. Mae'r cynlluniau symud a chodi a chario yn glir. Caiff ymarferwyr arbenigol eu cynnwys wrth ddarparu gofal dementia er mwyn ceisio atal y bobl rhag cynhyrfu. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau yn y cartref yn dda. Mae'r broses ymchwiliadau yn glir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â digwyddiad, yn y drefn gronolegol. Gofynnwyd i dîm yr Awdurdod Lleol egluro'r trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau diogelu. Caiff cymhwysedd y staff ei fonitro fel rhan o'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, a chaiff prosesau disgyblu eu dilyn yn drylwyr ac mewn modd amserol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd ac i wneud dewisiadau. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, gan ofyn iddynt beth yr hoffent ei wneud o ran gweithgareddau, neu beth yr hoffent ei gael i ginio. Roedd y bobl yn canmol eu profiad o fyw yn Greenhill Manor. Caiff perthnasau a chynrychiolwyr eu hysbysu am unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â'u hanwyliaid.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwnaed rhai newidiadau i'r broses ar gyfer derbyn presgripsiynau gan y meddyg teulu a'u rhoi i'r fferyllfa i'w cyflenwi. Ymddengys fod hyn wedi gwella effeithlonrwydd a chysondeb y trefniadau ar gyfer derbyn meddyginiaethau. Dywedodd y staff wrthym: *"the current system is much better"*. Caiff rowndiau meddyginiaeth eu cwblhau'n gywir gan ddefnyddio system electronig. Gwnaethom siarad â'r staff sy'n rhoi meddyginiaethau, ac roeddent yn wybodus am y gwahanol fathau o feddyginiaethau y mae'r bobl yn eu cymryd, gan gynnwys meddyginiaethau PRN (fel sy'n ofynnol) a meddyginiaethau y mae angen eu cymryd ar amseroedd penodol. Caiff asesiadau cymhwysedd meddyginiaethau eu cwblhau fel rhan o'r trefniadau monitro ansawdd.

Mae systemau wrthi'n cael eu datblygu er mwyn helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff, a nododd eu bod yn hyderus yn eu gallu i nodi pryderon diogelu posibl, ac a wnaeth ganmol y tîm rheoli am ymateb yn gyflym ac yn briodol i unrhyw bryderon. Roedd y staff yn teimlo bod y tîm rheoli yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw wrth ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad yn y cartref. Nid yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth glir am y trothwy ar gyfer rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am ddigwyddiadau diogelu, a disgwylir i hyn wella yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r system archwilio ar gyfer pryderon diogelu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn y drefn gronolegol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu diogelwch personol pan fyddant yn cael help gyda thasgau ac i symud o amgylch y cartref. Gwelsom niferoedd digonol o gymhorthion a chyfarpar symud a chodi a chario, a oedd wedi'u trefnu a'u labelu'n glir ar gyfer pob unigolyn yn seiliedig ar ei anghenion. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi cyfarwyddiadau a disgrifiadau clir o'r cyfarpar sydd ei angen er mwyn rhoi cymorth i'r bobl symud a throsglwyddo o un lle i'r llall. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo'n hyderus wrth helpu'r bobl i symud ac wrth ymgymryd â gweithdrefnau codi a chario. Caiff hyfforddiant gloywi ymarferol ei roi bob chwe mis ar weithdrefnau symud a chodi a chario, ac mae hyfforddiant ychwanegol bellach wedi'i gynnwys ar fesur slingiau.

Mae prosesau ar waith i nodi, monitro a thrin briwiau pwyso a chlwyfau. Caiff ffotograffau a mesuriadau o'r darnau o groen yr effeithiwyd arnynt eu cofnodi a'u hadolygu gan y tîm rheoli bob saith diwrnod. Gwneir atgyfeiriadau at nyrsys hyfywedd meinwe fel sy'n ofynnol fel rhan o'r broses adolygu. Cynhelir dadansoddiad i nodi sut y cafwyd y briw pwyso, a chaiff unrhyw bwyntiau gweithredu neu bwyntiau dysgu eu rhoi ar waith.

Caiff y bobl sydd ag anghenion dementia eu cefnogi er mwyn ceisio lleihau effaith ymddygiadau heriol neu ymddygiadau sy'n peri risg i ddiogelwch unigolion. Mae darparwr y gwasanaeth yn cyflogi Ymarferydd Dementia sy'n dadansoddi digwyddiadau yn y cymunedau dementia ac yn creu proffiliau pwrpasol ar gyfer y bobl, gan nodi unrhyw anghenion emosiynol nad ydynt o bosibl yn cael eu diwallu. Mae'r staff yn defnyddio'r proffiliau hyn i addasu eu dull o gefnogi'r person. Mae'r bobl hefyd yn derbyn cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol allanol fel y Tîm Dementia Arbenigol a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Dangosodd y staff sy'n gweithio yn y cymunedau dementia eu bod yn wybodus am y bobl sy’n byw yno ac yn ymwybodol o unrhyw broblemau posibl yn y gymuned.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn a oedd yn ystyried meysydd gofal a chymorth ac arweinyddiaeth a rheolaeth, ni wnaethom ystyried unrhyw agweddau ar yr amgylchedd yn fanwl. Ár ddiwrnod ein hymweliad, roedd y cartref yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae prosesau ar waith ar gyfer monitro ac archwilio digwyddiadau yn y cartref, er mwyn nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau a chymryd camau lle bo angen. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio system electronig i gofnodi pob digwyddiad, sy'n nodi amserlen glir ar gyfer camau gweithredu, gan gynnwys atgyfeiriadau at asiantaethau eraill ac unrhyw gyfathrebu a fu â'r perthnasoedd agosaf. Mae'r gwaith monitro hwn yn bwydo i mewn i'r prosesau sicrhau ansawdd, ac i adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol ar ansawdd y gofal.

Gall y bobl fod yn hyderus bod arsylwadau rheolaidd yn cael eu cynnal i gadarnhau bod y staff yn gymwys wrth ymgymryd â thasgau gofal a chymorth ymarferol. Mae'r tîm rheoli yn arsylwi ar brosesau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a symud a chodi a chario, a chaiff unrhyw faterion eu codi â'r aelod o staff. Caiff hyfforddiant gloywi ychwanegol ei roi i'r rhai sydd ei angen.

Ymchwilir i unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad y staff, ac ymdrinnir â'r materion hynny drwy lwybr disgyblu ffurfiol. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr honiad, bydd achosion disgyblu yn dilyn proses drylwyr â therfynau amser penodol, gan sicrhau bod yr aelod o staff yn cael ei hysbysu yn ystod pob cam. Bydd hefyd yn cael y cyfle i ateb unrhyw gwestiynau, ac mae proses apelio ar waith ar gyfer unrhyw benderfyniad a wneir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/03/2024